

Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Cadeirydd y Pwyllgor:



Jayne Bryant AS
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AS
Plaid Cymru



Andrew RT Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



David J Rowlands AS
Grŵp y Gynghair Annibynnol
dros Ddiwygio

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Rôl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad	6
Aelodaeth	6
Cyfansoddiad a strwythur y Pwyllgor	7
Comisiynydd Safonau y Senedd	7
Comisiynydd dros dro	8
2. Gwaith y Pwyllgor	9
Lobïo	9
‘Creu’r Diwylliant Cywir’	9
Yr adolygiad o’r cod ymddygiad	10
Grwpiau trawsbleidiol	11
Cwynion gan y Comisiynydd Safonau	12
Sanctsiynau	12
3. Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd	14
Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o’r Senedd.....	14
Cofrestru a datgan buddiannau.....	14
Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009	15
Hyfforddiant i Aelodau	16
Atodiad A: Adroddiadau’r Pwyllgor i’r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9	17

Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried a ddylai Rheol Sefydlog 17.12 (y dylai Aelod sy'n ymuno â grŵp gwleidyddol neu'n ymadael ag ef beidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor mwyach) fod yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau.7
- Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid adolygu'r Cod Ymddygiad hanner ffordd drwy'r Chweched Senedd i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i'r cyd-destun gwleidyddol, cyfansoddiadol a diwylliannol y mae'r Aelodau o'n Senedd, sy'n parhau i esblygu, yn gweithredu ynddo.11
- Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am safonau yn y dyfodol adolygu'r sancsiynau y gall y Pwyllgor eu hargymell o dan Reol Sefydlog 22.10, yn sgil profiadau'r Bumed Senedd.13
- Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai swyddogion Comisiwn y Senedd weithio gyda'r Comisiynydd newydd i adolygu'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd a gwneud argymhellion i'w trafod gan y Pwyllgor nesaf sy'n gyfrifol am safonau.14
- Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Pwyllgor sy'n gyfrifol am safonau yn y dyfodol gynnal adolygiad o'r broses gofrestru a datgan buddiannau.15
- Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Pwyllgor yn y dyfodol sydd â safonau'n rhan o'i gylch gorchwyl wneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009. 16
- Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r pecyn hyfforddiant a gynigir i Aelodau gynnwys modiwlau ychwanegol ynghylch urddas a pharch. 16

1. Rôl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

1. Cafodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (“y Pwyllgor”) ei sefydlu ar 28 Mehefin 2016.
2. Rôl y Pwyllgor yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.1. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - ymchwilio i gwynion a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau;
 - trafod unrhyw faterion o egwyddor sy'n gysylltiedig ag ymddygiad Aelodau; a
 - phennu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion, a gwneud trefniadau ar gyfer Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau ac unrhyw gofnodion cyhoeddus eraill a bennir yn y Rheolau Sefydlog.

Aelodaeth

3. Ar ddiwedd y Bumed Senedd, roedd aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:
 - Jayne Bryant AS (Cadeirydd)
 - Andrew RT Davies AS
 - Rhun ap Iorwerth AS
 - David Rowlands AS
4. Mae aelodau blaenorol o'r Pwyllgor wedi'u rhestru isod:
 - Paul Davies AS
 - Llyr Gruffydd AS
 - Helen Mary Jones AS
 - Gareth Bennett AS
5. Hoffem ddiolch i'r Aelodau hyn am eu cyfraniad at waith y Pwyllgor yn ystod y Bumed Senedd.

Cyfansoddiad a strwythur y Pwyllgor

6. Fel y dangosir drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Bumed Senedd wedi gweld cynnydd sylweddol ym mhwyso gwaith y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw'r cynnydd yn nifer a chymhlethdod y cwynion a ddaeth i law, ond mae'r rhesymau eraill yn cynnwys y gwaith a wnaed ar adolygu'r cod ymddygiad a'r polisiau urddas a pharch mewn perthynas ag Aelodau.

7. Yn ystod Cynulladau'r gorffennol, mae pwysau gwaith y Pwyllgor wedi amrywio, gan ddibynnu ar nifer y cwynion a ddaeth i law a'r nifer a dderbyniwyd. Yn ystod y Senedd hon, mae'r pwysau gwaith trymach wedi arwain at un fantais benodol, sef bod y Pwyllgor wedi meithrin perthynas waith gryf, a oedd yn fanteisiol wrth ymdrin ag adroddiadau ar gwynion gan y Comisiynydd.

8. Mae'r cynnydd ym mhwyso gwaith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor wedi tanlinellu pwysigrwydd cael aelodaeth gyson o'r Pwyllgor drwy gydol tymor Senedd benodol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn helpu i hyrwyddo a hwyluso'r ddealltwriaeth o'r gyfundrefn safonau ymhlith Aelodau o'r Senedd. Hefyd, mae'n helpu'r Pwyllgor i wneud penderfyniadau sy'n gallu bod yn anodd ynghylch cwynion yn erbyn Aelodau a'r sancsiynau sy'n berthnasol iddynt.

9. Ar rai adegau yn ystod y Senedd hon, mae gwaith y Pwyllgor wedi'i rwystro oherwydd diffyg Aelodau o ganlyniad i newidiadau yng nghyfansoddiad y grwpiau gwleidyddol. Pan roedd Aelodau yn methu â chymryd rhan mewn trafodion ar gwynion penodol, arweiniodd y cyfuniad hwn o amodau at oedi cyn yr oedd yn bosibl trafod materion sensitif o ran amser.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried a ddylai Rheol Sefydlog 17.12 (y dylai Aelod sy'n ymuno â grŵp gwleidyddol neu'n ymadael ag ef beidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor mwyach) fod yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau.

10. Efallai y bydd Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd am drafod ymestyn cylch gorchwyl Pwyllgor Safonau y Senedd nesaf. Er enghraifft, yn yr Alban mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn cynnwys gweithdrefnau a phenodiadau cyhoeddus.

Comisiynydd Safonau y Senedd

11. Tuag at ddiwedd y Bumed Senedd, cafodd Douglas Bain ei benodi fel y trydydd Comisiynydd Safonau. Fe ddechreuodd yn y swydd ar 1 Ebrill 2021.

12. Caiff y Comisiynydd ei benodi gan y Senedd ond mae'n ddeiliad swydd annibynnol. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd lunio adroddiad blynyddol i'w osod gerbron y Senedd. Yn ystod y Bumed Senedd, daeth yn arfer cyffredin i'r Pwyllgor gynnal sesiwn yng nghwmni'r Comisiynydd i drafod yr adroddiad. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi codi materion ynghylch trefniadau cyllido Swyddfa'r Comisiynydd yn ystod ei waith craffu ar gyllideb Comisiwn y Senedd. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn awgrymu y dylid ystyried sut y gellir craffu ar waith y Comisiynydd mewn modd sy'n cwmpasu'r holl ystyriaethau perthnasol.

13. Yn ystod y Bumed Senedd, mynegwyd rhai pryderon ynghylch ymddygiad y Comisiynydd blaenorol. Nid yw'r Comisiynydd yn gweithredu'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd; fodd bynnag, mae gan y Senedd bŵer i ddiswyddo'r Comisiynydd (Rheolau Sefydlog 10.7 a 10.8). Felly, dylai unrhyw bryderon ynghylch y gyfundrefn safonau gael eu cyfeirio at yr awdurdodau priodol, gan gynnwys Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd neu'r Llywydd.

Comisiynydd dros dro

14. Yn ystod y Senedd hon, cafodd y ddarpariaeth ar gyfer Comisiynydd Dros Dro, sydd wedi'i nodi yn adran 4 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("y Mesur"), ei defnyddio ar ddau achlysur. Yn gyntaf, pan roedd y Comisiynydd blaenorol ei hun o'r farn bod ganddo fuddiannau a oedd yn gwrthdaro, felly nid oedd yn gallu gweithredu yn yr achos perthnasol, ac, yn ail, pan roedd y swydd yn wag ar ôl i'r Comisiynydd blaenorol ymddiswyddo.

2. Gwaith y Pwyllgor

15. Nid yw rhaglen waith arferol y Pwyllgor yn gweddu'n naturiol â chynnal ymchwiliadau polisi. Yn hytrach, mae llawer o waith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau ynghylch ymddygiad Aelodau wedi'u diweddarau ac yn parhau'n effeithiol, a bod y Pwyllgor yn ymdrin â chwynion a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau ac yn trafod pwyntiau cyffredinol o egwyddor a godir gan y Comisiynydd.

Lobïo

16. Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i lobïo yn 2017 ar argymhelliad Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Pedwerydd Cynulliad. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ystod eang o dystion a chynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus.

17. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn datblygiadau yn yr Alban, lle'r oedd cofrestr statudol yn y broses o gael ei chyflwyno. Aeth y gofrestr hon yn fyw yn 2018. Roedd Deddf Lobïo (yr Alban) 2016, a gyflwynodd y gofrestr, yn ei gwneud yn ofynnol i Senedd yr Alban gynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth ddwy flynedd ar ôl iddi gael ei gweithredu.

18. Cytunodd y Pwyllgor y gallai bod angen cofrestr statudol yng Nghymru, ond ei fod yn awyddus i aros am ganlyniad yr adolygiad yn yr Alban yn gyntaf.

19. Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gwaith Craffu ar ôl Deddfu Senedd yr Alban ei adroddiad ar yr adolygiad o'r ddeddfwriaeth ym mis Ionawr 2021.

20. Hefyd, argymhellodd y Pwyllgor y dylid treialu cyhoeddi dyddiaduron yr Aelodau. Fodd bynnag, ar ôl trafod materion o ran diogelwch ac ymarferoldeb, nid aeth y cynllun peilot hwn yn ei flaen.

'Creu'r Diwylliant Cywir'

21. Treuliodd y Pwyllgor gryn dipyn o amser yn ystod tymor y Senedd hon yn trafod yr agenda urddas a pharch a materion sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch #metoo.

22. Cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor â'r Llywydd ac arweinwyr y pleidiau i drafod yr agenda ar gyfer polisi urddas a pharch y Senedd. Roedd y Cadeirydd hefyd yn un o lofnodwyr y datganiad a gyhoeddwyd.¹

23. Hefyd, lluniodd y Pwyllgor yr adroddiad 'Creu'r Diwylliant Cywir', a amlinellodd y camau y gellid eu cymryd yn fewnol i wella diwylliant y Senedd.

24. Mae llawer o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor eisoes wedi'u gweithredu, gan gynnwys ymgyrch 'gwylwyr gweithredol' a hyfforddiant i'r holl Aelodau a'u staff ynghylch pwysigrwydd urddas a pharch yn y gweithle.

25. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi ymgorffori urddas a pharch fel gwerthoedd yn niwylliant y Senedd drwy gynnwys egwyddor 'parch' newydd yng nghod ymddygiad diwygiedig yr Aelodau.

Yr adolygiad o'r cod ymddygiad

26. Rhan bwysig o waith y Pwyllgor yn ystod y Senedd hon oedd llunio cod ymddygiad diwygiedig a chanllawiau cysylltiedig.

27. Wrth ailddrafftio'r cod a'r gweithdrefnau cysylltiedig, nod y Pwyllgor oedd:

- rhoi rhagor o eglurder ynghylch y safonau a ddisgwyllir gan Aelodau; ac
- alinio'n well â'r polisi urddas a pharch a fabwysiadwyd gan y Senedd ym mis Mai 2018.

28. I wneud hyn, cymerodd y Pwyllgor y camau a ganlyn:

- bu'n myfyrion ar ei brofiad ei hun, yn ogystal â'r argymhellion yn adroddiadau'r Comisiynydd Safonau, yn ystod y Senedd hon;
- siaradodd â nifer o randdeiliaid (rhestr yn Atodiad x);
- bu'n ymgynghori â phob Aelod o'r Senedd; ac
- ymchwiliodd i'r defnydd o godau ymddygiad gan lywodraethau lleol a chenedlaethol yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

29. Mae dwy brif elfen yn perthyn i'r cod wedi'i ailddrafftio, sef:

¹ Linc i'r datganiadau

- nifer o egwyddorion cyffredinol o ran ymddygiad y mae'n rhaid i'r Aelodau gadw atynt ac sydd wedi'u seilio ar yr "egwyddorion Nolan" hir-sefydlog yn ogystal ag egwyddor "parch" ychwanegol; a
- chyfres o 24 o reolau sy'n nodi'r glir ac yn gryno yr ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau.

30. Cafodd y cod diwygiedig ei gytuno yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth 2021, a bydd yn dod i rym ar ddechrau'r Chweched Senedd.

31. Mae'r cod diwygiedig yn adlewyrchu safonau cyfoes mewn bywyd cyhoeddus. Argymhellwn fod y cod yn cael ei adolygu, yn unol â phrofiad, i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol yn y cyd-destun gwleidyddol, cyfansoddiadol a diwylliannol y mae'r Aelodau o'n Senedd, sy'n parhau i esblygu, yn gweithredu ynddo.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid adolygu'r Cod Ymddygiad hanner ffordd drwy'r Chweched Senedd i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i'r cyd-destun gwleidyddol, cyfansoddiadol a diwylliannol y mae'r Aelodau o'n Senedd, sy'n parhau i esblygu, yn gweithredu ynddo.

Grwpiau trawsbleidiol

32. Roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu adroddiadau monitro ar waith y grwpiau trawsbleidiol yn ystod y Bumed Senedd. Mae'r trefniant hwn wedi gweithio'n dda, gan sicrhau cydymffurfiaeth eang â'r rheolau a chynnig sicrwydd ynghylch gwaith y grwpiau trawsbleidiol.

33. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor sy'n gyfrifol am safonau yn y Chweched Senedd yn adolygu gwaith y grwpiau trawsbleidiol yn flynyddol, gan gynnwys penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau yn erbyn grwpiau nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau. Dylai adolygiadau o adroddiadau monitro ddigwydd ar ddechrau tymor yr hydref bob blwyddyn, gyda'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal yn yr hydref 2022.

34. Dylid anfon copi o'r adroddiad monitro perthnasol at yr holl Aelodau ar ôl cynnal yr adolygiad, yn gyntaf ar ffurf ddrafft ac wedyn ar ffurf derfynol, gan atodi nodyn i atgoffa Aelodau o'r rheolau ynghylch gwaith y grwpiau trawsbleidiol a chyfrifoldebau Cadeiryddion y grwpiau hyn.

Cwynion gan y Comisiynydd Safonau

- 35.** Mae'r Pwyllgor wedi trafod 15 o adroddiadau gan y Comisiynydd a'r Comisiynydd Dros Dro yn ystod y Senedd hon, sef tair gwaith yn fwy o gwynion na'r hyn a drafodwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Cyhoeddodd y Pwyllgor 12 adroddiad mewn perthynas â'r adroddiadau hyn. Roedd pedwar adroddiad heb gwblhau pob cam o'r weithdrefn erbyn diwedd y Senedd; mater i'r Pwyllgor nesaf fydd ystyried y rhain.
- 36.** Roedd natur y cwynion yn fwy cymhleth na'r cwynion a ddaeth i law yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae rhestr lawn o'r materion a drafodwyd wedi'i chynnwys yn Atodiad A.
- 37.** Bu'n ofynnol i'r Pwyllgor ddefnyddio'r ddarpariaeth ar gyfer Aelod amgen ar nifer o achlysuron. Ar ddau achlysur, roedd y cwynion a ddaeth i law yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgarwch grŵp gwleidyddol cyfan (er nad oedd y cwynion hyn yn trafod ymddygiad pob aelod o'r grwpiau perthnasol), gan olygu nad oedd Cadeirydd y Pwyllgor yn gallu cymryd rhan yn y trafodion, a bu'n rhaid i Gadeirydd dros dro gymryd yr awenau.

Sanctsiynau

- 38.** Argymhellodd y Pwyllgor y dylid defnyddio'r sanctsiynau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad blaenorol² yn 2013 am y tro cyntaf yn ystod y Senedd hon. Penderfynodd y Senedd wahardd Aelodau o drafodion y Senedd ar bedwar achlysur, am gyfnodau yn ymestyn o 7 i 21 o ddiwrnodau. Hefyd, penderfynodd y Senedd atal mynediad i Dŷ Hywel ac adeilad y Senedd yn ystod un cyfnod o waharddiad.
- 39.** Estynnodd y Pwyllgor wahoddiad i Aelodau ad-dalu arian ac ymddiheuro i'r Senedd. Yn dilyn y gwahoddiadau hyn, cafodd un swm o'r arian ei ad-dalu a'r llall ddim. Roedd yr ymateb i wahoddiadau i ymddiheuro hefyd yn amrywio. Roedd y

² Adroddiad 04-13 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'r Cynulliad ar Sanctsiynau.

Argymhellodd y Pwyllgor blaenorol y dylai'r Senedd fod â phwerau i gymryd y camau a ganlyn: 'gwahardd yr Aelod o drafodion y Senedd² naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, er enghraifft o drafodion cyfarfodydd penodol o'r Senedd neu ei bwyllgorau, am gyfnod penodol yn unol â'r Rheolau Sefydlog', neu:

'tynnu yn ôl hawl mynediad fel aelod i ystâd y Senedd; gwaharddiad o weithgareddau eraill y buasai gan yr aelod hawl i fynd iddynt; a/neu dynnu breintiau cynrychioliadol a seremonïol a breintiau cysylltiedig oddi ar aelod a fyddai fel arfer yn eu mwynhau fel aelod', neu unrhyw gyfuniad o'r sanctsiynau uchod.

Pwyllgor yn ystyried unrhyw gamau a gymerwyd gan Aelod i wneud yn iawn am dramgwydd wrth benderfynu ar lefel y sancsiwn i'w osod.

40. Hefyd, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Pwyllgor Busnes atal unrhyw Aelod sydd wedi bod yn destun dwy gŵyn rhag bod yn aelod o'r Pwyllgor. At hynny, argymhellodd y Pwyllgor na ddylid ailbenodi'r Aelod i'r Pwyllgor. Penderfynodd y Senedd y dylid disodli'r Aelod sy'n destun dwy gŵyn yn dilyn cynnig gan y Pwyllgor Busnes.

41. Bu ychydig o drafodaeth yn ystod y Senedd hon ynghylch yr angen am wahanol sancsiynau, fel hyfforddiant mandadol a phŵer penodol i adfer gordaliadau (er y mae'n bosibl y byddai angen cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer yr ail o'r rhain). Er bod y Pwyllgor wedi llwyddo, ar y cyfan, i sicrhau'r canlyniadau gofynnol drwy ofyn bod camau penodol yn cael eu cymryd, byddai mantais glir i ffurfioli'r broses hon drwy gynyddu'r sancsiynau sydd ar gael iddo.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am safonau yn y dyfodol adolygu'r sancsiynau y gall y Pwyllgor eu hargymhell o dan Reol Sefydlog 22.10, yn sgil profiadau'r Bumed Senedd.

3. Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

42. Mae'r weithdrefn bresennol ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y weithdrefn") wedi bod ar waith? ers i'r Mesur gael ei basio; mae rhai nodweddion ohoni yn adlewyrchu'r gyfundrefn safonau anstatudol oedd ar waith cyn y Mesur.

43. O ganlyniad i'r amrywiaeth o gwynion a ddaeth i law yn ystod y Bumed Senedd, defnyddiwyd rhai agweddau ar y weithdrefn gwyno am y tro cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys:

- y broses apelio;
- cyflwyno adroddiad yn nodi bod y cod wedi'i dorri ond yn argymhell na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach; a
- chael cwyn derbyniadwy, ond bod y Pwyllgor heb ddod o hyd i dystiolaeth fod y cod wedi'i dorri.

44. At hynny, yn ystod y Senedd hon, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael cyfle i fyfyrion ar ymarferoldeb sawl elfen o'r weithdrefn, gan nodi bod angen diwygio rhai ohonynt. Mae esiamplau'n cynnwys: effeithiolrwydd y darpariaethau ynghylch cyfrinachedd, yr angen i drafod amserlen y broses gwyno ac opsiynau ar gyfer adrodd yn ôl ynghylch canlyniad ymchwiliadau'r Comisiynydd.

45. Ar ôl mabwysiadu'r cod ymddygiad newydd a phenodi Comisiynydd newydd, ac o gofio'r ffactorau eraill y cyfeirir atynt uchod, argymhellwn y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r weithdrefn. Pe bai amser wedi caniatáu, dyma'r darn sylweddol nesaf o waith y byddai'r Pwyllgor wedi ymgymryd ag ef.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai swyddogion Comisiwn y Senedd weithio gyda'r Comisiynydd newydd i adolygu'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd a gwneud argymhellion i'w trafod gan y Pwyllgor nesaf sy'n gyfrifol am safonau.

Cofrestru a datgan buddiannau

46. Cytunodd y Pwyllgor ar ddechrau'r adolygiad o'r cod ymddygiad na fyddai'n trafod buddiannau cofrestradwy fel rhan o'r gwaith hwnnw. O gofio bod yr

adolygiad o'r cod bellach wedi'i gwblhau, efallai ei bod yn amser adolygu'r broses o gofrestru a datgan buddiannau. Mae nifer o eitemau yn berthnasol i adolygiad o'r fath, gan gynnwys trafod a ddylid cofrestru unrhyw ymweliadau y mae eu costau wedi'u talu'n llawn gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

47. Hefyd, gofynnodd y Comisiynydd Dros Dro a ddylai'r gofynion ynghylch datgan buddiannau fod yn berthnasol i gwestiynau a datganiadau ysgrifenedig.

48. At hynny, gwnaeth y Pwyllgor gryn dipyn o waith paratoadol ar ddileu'r gofyniad adrodd deul o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddai hyn yn dileu'r gofyniad bod yn rhaid i Aelodau gofrestru buddiannau penodol, er enghraifft ymweliadau tramor, gyda'r Senedd a'r Comisiwn Etholiadau, gan alluogi'r Aelodau i gofnodi'r wybodaeth hon unwaith yn unig gyda'r Senedd. I wneud hyn, byddai'n rhaid newid y gofrestr fuddiannau i sicrhau bod gofynion y Senedd yn cyd-fynd â gofynion Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad na fyddai'n bosibl cwblhau'r gwaith hwn yn ystod y Bumed Senedd, ond mae'n argymhell y dylai'r Pwyllgor nesaf ddwyn y gwaith hwn yn ei flaen fel rhan o adolygiad o'r broses o gofrestru a datgan buddiannau.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Pwyllgor sy'n gyfrifol am safonau yn y dyfodol gynnal adolygiad o'r broses gofrestru a datgan buddiannau.

Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

49. Mae Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, sy'n sefydlu swydd y Comisiynydd, wedi bod mewn grym ers dros ddegawd bellach. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae tri Chomisiynydd wedi'u penodi, mae polisi urddas a pharch wedi'i fabwysiadu, mae'r cod ymddygiad wedi'i adolygu ac mae natur y cwynion wedi esblygu. Byddai'n briodol adolygu'r Mesur i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion cyfoes.

50. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi nodi nifer o ddiwygiadau y byddai'n awyddus i'w gweld yn cael eu gwneud ond y byddent yn golygu bod yn rhaid diwygio'r Mesur presennol, fel a ganlyn:

- creu tramgwydd newydd o rwystro ymchwiliad. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r tramgwyddau presennol o dan y Mesur sy'n trafod methu ag ymddangos gerbron y Comisiynydd pan elwir ar unigolyn i wneud hynny

neu fethu â chyflwyno dogfennau, yn ogystal â chamau bwriadol a gymerir i atal cyflwyno dogfennau neu ddinistrio dogfennau;³

- sail i'r Comisiynydd ddechrau ymchwiliadau heb gŵyn; ac
- adolygu'r darpariaethau ynghylch cyfrinachedd ar gyfer yr unigolion sy'n rhan o gŵyn.

51. Mae rhai Aelodau wedi mynegi pryderon ynghylch atebolrwydd y Comisiynydd a'r broses ar gyfer adolygu pryderon ynghylch y Comisiynydd heblaw cyflwyno cynnig i'w ddiswyddo. Byddai'n rhaid newid y ddeddfwriaeth berthnasol i wneud darpariaeth o'r fath.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Pwyllgor yn y dyfodol sydd â safonau'n rhan o'i gylch gorchwyl wneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.

Hyfforddiant i Aelodau

52. Daw llawer o gyfrifoldeb yn sgil cael ein hethol yn Aelodau. Mae'n rhaid i'r holl Aelodau fod yn ymwybodol o'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt, fel y'u nodwyd yn y cod a'r polisiau cysylltiedig. Nodwn fod hyfforddiant o'r fath yn cael ei gynneg fel rhan o'r rhaglen gynefino ar ddechrau Senedd newydd.

53. Hefyd, mae'n bwysig bod gan Aelodau y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wynebu heriau amrywiol y rôl. Wrth ymgymryd â'i waith, mae'r Pwyllgor wedi nodi'r meysydd a ganlyn y gallai hyfforddiant yn eu cylch fod o fudd i'r Aelodau ar ddechrau'r Senedd ac yn ystod eu cyfnod yn y swydd:

- y cyfryngau cymdeithasol;
- diogelu;
- menter 'stop it now' NSPCC Cymru;
- rhagfarn ddarwybod; ac
- urddas a pharch (a gyflwynwyd yn y gorffennol gan ACAS).

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r pecyn hyfforddiant a gynigir i Aelodau gynnwys modiwlau ychwanegol ynghylch urddas a pharch.

³ Gweler adran 15 o'r Mesur

Atodiad A: Adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9 Mae Rheol Sefydlog 22.9 yn datgan bod yn rhaid i'r Pwyllgor ymchwilio i unrhyw gwynion y cyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau a rhaid iddo gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r ymchwiliad.	Dyddiad cyhoeddi
Adroddiad 06-21 i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9	Mawrth 2021
Adroddiad 05-21 i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9	Mawrth 2021
Adroddiad 03-20 i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9	Rhagfyr 2020
Adroddiad 02-20 i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9	Tachwedd 2020
Adroddiad 01-20 i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9	Medi 2020
Adroddiad 03-19 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9	Medi 2019
Adroddiad 02-19 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9	Medi 2019
Adroddiad 01-19 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9	Ebrill 2019
Adroddiad 03-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9 <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymateb gan Llywydd, Comisiwn y Cynulliad ▪ Ymateb gan y Fonesig Dawn Primarolo, Cadeirydd y Bwrdd Taliadau 	Tachwedd 2018 Ionawr 2019
Adroddiad 02-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9	Gorffennaf 2018
Adroddiad 01-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9	Ebrill 2018
Adroddiad gan Syr John Griffith Williams QC o dan baragraff 8.6 o'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad (Saesneg yn unig)	
Adroddiad 01-17 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9	Awst 2017